# Y Pwyllgor Deisebau

## "PET(3)03-08 (p10): 21 Chwefror 2008"

### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-094: Pwll Nofio Edwardsville

### Geiriad y Ddeiseb

Mae Pwll Nofio Edwardsville yn gyfleuster poblogaidd sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth. Mae'n ganolbwynt ein cymuned leol er y caiff ei ddefnyddio gan bobol o'r ardal oddi amgylch. Mae Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful yn bwriadu cau'r cyfleuster hwn ac amddifadu ein cymuned o'r cyfle i nofio'n lleol ac i gadw'n iach.

Hoffem ni sydd wedi arwyddo isod i blant gael yr hawl i fywyd hir ac iach, wedi ei ddiogelu gan gyfleusterau nofio y gall llawer gerdded iddynt. Rydym felly yn galw ar y Cynulliad i wneud yr hyn a all i'n helpu i gadw pyllau nofio fel yr un yn Edwardsville ar agor er mwyn gallu parhau i'w ddefnyddio i helpu iechyd a lles pobl yn y cymunedau lleol. Caiff y ddeiseb ei hanfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried gan y Pwyllgor Deisebau.

### Diben

Ystyried papur gan y Clerc.

### Cefndir

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2008. Cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth i ofyn am ragor o wybodaeth am bolisïau nofio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn dilyn y cyfarfod, cafodd y Clerc wybodaeth gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n amlinellu polisïau nofio cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd hyn ei grynhoi mewn papur, a'i roi i'r Aelodau oherwydd fe all ddarparu digon o wybodaeth i lywio trafodaeth yr Aelodau ar y ddeiseb hon.

Mae copi o'r papur hwn i'w weld fel Atodiad A. Mae copi o ddogfen bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w weld fel Atodiad B.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2008**